# ADNABOD NODWEDDION ARDDULL YN 'FERN HILL'

Mae barddoniaeth Dylan Thomas yn arbennig oherwydd yr effeithiau sain sy'n cael eu creu gan ei ddefnydd o nodweddion arddull. Mae'r cyfan yn creu effaith gyfoethog iawn, sy'n llawn o ddelweddau a geiriau yn plethu drwy ei gilydd i greu gwead tynn. Mae'n gwneud defnydd o rythm ac odlau hefyd, ac mae rhai yn dadlau ei fod yn gyfarwydd gyda'r gynghanedd, am ei fod yn ceisio cyfateb sain llythrennau mewn geiriau. Gallwch wrando ar y Prifardd Mererid Hopwood yn trafod hyn ar http://www.bbc.co.uk/programmes/p01yd500
Ydych chi'n hyderus eich bod yn gwybod beth yw ystyr nodweddion arddull? Llenwch y grid.

TERMAU: cytseinedd, odl, personoli, rhestru, cymhariaeth, trosiad, ailadrodd, edefyn geiriol

| | |
|---|---|
| 1. Defnyddio geiriau sydd â'r un sain ar ddiwedd neu o fewn llinellau | |
| 2. Defnyddio'r un gair neu gymal fwy nag unwaith | |
| 3. Ailadrodd yr un sain cytsain (nid llafariad) mewn geiriau yn agos at ei gilydd | |
| 4. Defnyddio 'fel' neu 'mor' i gymharu pethau | |
| 5. Rhoi nodweddion dynol i rywbeth sydd heb fod yn ddynol, e.e. roedd amser ar redeg | |
| 6. Cyfres o bethau wedi eu gwahanu gan atalnod (,) | |
| 7. Defnyddio llinyn o eiriau sydd yn perthyn i'w gilydd, o ran thema neu bwnc, drwy'r gerdd i greu cyswllt geiriol. | |
| 8. Dweud bod rhywbeth YN rywbeth arall er mwyn creu cymhariaeth, e.e. afonydd y goleuni | |

Dewiswch **ddwy** enghraifft allan o 'Fern Hill' o unrhyw un o'r nodweddion hyn. Ysgrifennwch nhw allan ac esboniwch pam maen nhw yn effeithiol, yn eich barn chi.